TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Diploma mewn Barbro Lefel 2



**Yn gryno**

Mae'r sector barbro yn symud yn gyflym a bydd cyfle i ddysgu sgiliau newydd yn ystod ac ar ôl y rhaglen hyfforddi ddiddorol hon.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych chi am gael gyrfa fel barbwr

... Ydych chi'n gyfeillgar ac yn weithgar

... Ydych chi'n dwli ar waith creadigol a manw

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Bydd angen i chi fod yn hunan-gymhellol, yn weithgar, yn gyfeillgar a meddu ar lefel uchel o gyflwyniad personol. Bydd disgwyl i chi fynychu lleoliad gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd yr holl ddarpariaeth yn cymryd lle ar y campws a bydd un noson yr wythnos

pan fyddwch yn y coleg tan yn hwyr. Presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yw un o brif ofynion y cwrs hwn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

NVQ Lefel 2 mewn Barbro neu gyflogaeth ar lefel prentis iau

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cod Gwisg:

Rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus esgidiau duon mewn salonau
Rhaid clymu gwallt yn daclus yn ôl ac i ffwrdd o'r wyneb
Ni ddylid gwisgo unrhyw estyniadau ewinedd a farnais
Dim tyllu: dim ond modrwy briodas y caniateir ei gwisgo yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy, a fydd yn costio tua £200.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo tiwnig salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Mae manylion ar sut i archebu'ch tiwnig a'ch offer, ynghyd ag opsiynau i dalu'r cyflenwr, ar gael oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Pris y diwnig ar gyfer 2024/2025 yw £45.